



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Diweddariad ar ein dull o ymdrin â data gofal cymdeithasol

Ein diweddariad cyntaf ar yr Ymagwedd strategol at ddata gofal cymdeithasol yng Nghymru

First published: 18 October 2022

Last updated: 10 November 2022

This document was downloaded from socialcare.wales and may not be the latest version.

Go to <https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/ymagwedd-strategol-at-ddata/diweddariad-dull-o-ymdrin-data> for the latest version.

Dyma ein diweddariad cyntaf ar yr [Ymagwedd strategol at ddata gofal cymdeithasol yng Nghymru](#), ein prosiect i ddatblygu dull newydd o ymdrin â data gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae hon yn rhaglen waith hirdymor i wella'r ffordd yr ydym yn casglu, dadansoddi a defnyddio'r data a gesglir wrth ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Sut y gwnaethom ni ddatblygu ein hymagwedd

Mae ein hadroddiad ar y cam darganfod yn disgrifio data gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae ein datganiad o fwriad strategol yn dwyn ynghyd sefydliadau sydd am wella'r ffordd y caiff data ei gasglu a'i ddefnyddio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n disgrifio ein nodau ar gyfer data gofal cymdeithasol ac yn nodi wyth maes blaenoriaeth o waith. Rydyn ni wedi dechrau gweithio ym mhob maes ac wedi gwneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion.

Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud ers dechrau'r prosiect

Rydyn ni wedi:

- datblygu sut rydyn ni'n siarad â phobl yng Nghymru am y defnydd o ddata iechyd a gofal, ynghyd â'n partneriaid, Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru

- cytuno ar sut y byddem yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol a gofal cymdeithasol yng Nghymru
- rydyn ni wedi helpu awdurdodau lleol i rannu eu data gyda SAIL a'r [Networked Data Lab](#) ac wedi edrych ar sut y gallai porth rhannu gwybodaeth helpu i weinyddu rhannu data
- gwella'r ffordd rydyn ni'n casglu data am y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru
- creu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol sydd am rannu data
- ailgynllunio ein [Porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol Cymru](#) a gwella'r data a gynhelir ynddo, sut mae'n gweithio a sut y caiff ei ddefnyddio
- cyhoeddi'r adroddiad, Cwmpasu fframwaith datblygiad proffesiynol ar gyfer dadansoddwyr data gofal cymdeithasol yng Nghymru, sy'n edrych ar y gweithlu data mewn gwasanaethau awdurdodau lleol, a dechrau cyfres o brosiectau sgiliau data
- gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddarparu eu rhaglen ddysgu dadansoddeg lefel sylfaen gyda KPMG.

Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf

Erbyn Ebrill 2023 rydyn ni'n gobeithio:

- gweithio gyda sefydliad profiadol i'n helpu i siarad â phobl ledled Cymru am ddata iechyd a gofal
- parhau â'n gwaith gydag ADSS Cymru i osod ein blaenoriaethau data ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru

- gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall a ydynt yn barod ar gyfer y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol
- parhau â'n gwaith gyda'r *Networked Data Lab* a chryfhau ein dull o gysylltu data gweinyddol, drwy weithio gyda SAIL ac Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru
- parhau i ddatblygu'r [Porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol Cymru](#), ynghyd â'n defnyddwyr
- gweithio gydag awdurdodau lleol i ddiffinio safonau data ar gyfer data gofal cymdeithasol
- cyflwyno dau brosiect '[alfa](#)' ar gyfer sgiliau dadansoddi data
- cyhoeddi diweddariadau rheolaidd am waith y strategaeth ddata.

Gweld yr adroddiad llawn

- Lawrlwythch yr adroddiad llawn, [Datblygu ymagwedd strategol at ddata gofal cymdeithasol yng Nghymru - diweddariad Medi 2022 a'r camau nesaf.](#)
- Lawrlwythwch y ddogfen [Ymagwedd strategol at ddata gofal cymdeithasol, camau cyflym ymlaen.](#)